# keyfacts® am ein gwasanaethau yswiriant

NatWest

135 Bishopsgate
Llundain
EC2M 3UR

## 1. Yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (FSA)

Yr FSA yw'r corff gwarchod annibynnol sy'n rheoleiddio gwasanaethau ariannol. Defnyddiwch y wybodaeth hon i benderfynu a yw ein gwasanaethau'n gywir i chi.

## 2. Cynhyrchion pwy ydym ni'n eu cynnig?

☐ Rydym yn cynnig cynhyrchion gan amrywiaeth o yswirwyr.

☐ Dim ond cynhyrchion nifer gyfyngedig o yswirwyr ydym ni'n eu cynnig.

☑ Dim ond cynhyrchion y canlynol y gallwn ni eu cynnig:

UK Insurance Limited ar gyfer yswiriant credydwyr (gyda'r elfen yswiriant bywyd yn cael ei darparu gan Direct Line Life Insurance Company Limited)
UK Insurance Limited ar gyfer yswiriant cartref
UK Insurance Limited ar gyfer yswiriant modur
UK Insurance Limited ar gyfer yswiriant teithio arunig
Sterling Insurance Group Limited ar gyfer yswiriant damwain bersonol (ac eithrio ein sianel Marchnata Uniongyrchol lle cynigir cynnyrch gan Avon Insurance plc)
UK Insurance Limited ar gyfer yswiriant cynnwys hanfodol
Royal & Sun Alliance Insurance plc ar gyfer yswiriant gwarchodaeth ddiogel
National Westminster Life Assurance Limited ar gyfer aswiriant cyfnod
National Westminster Life Assurance Limited ar gyfer yswiriant salwch critigol
Aviva Healthcare Limited ar gyfer yswiriant diogelu incwm

ACE European Group Limited ar gyfer yswiriant marwolaeth ddamweiniol a ddarperir gyda chyfrifon cyfredol Advantage cymwys
UK Insurance Limited ar gyfer yswiriant teithio a ddarperir gyda chyfrifon cyfredol Advantage cymwys
ACE European Group Limited ar gyfer diogelwch cardiau talu a ddarperir gyda chyfrifon cyfredol Advantage cymwys
Domestic & General Insurance plc ar gyfer yswiriant gwarant estynedig a ddarperir gyda chyfrifon cyfredol Advantage cymwys
UK Insurance Limited ar gyfer yswiriant argyfyngau cartref a ddarperir gyda chyfrifon cyfredol Advantage cymwys
Royal & Sun Alliance Insurance plc ar gyfer yswiriant diogelu pryniadau a ddarperir gyda chyfrifon cyfredol Advantage cymwys
UK Insurance Limited ar gyfer cymorth Green Flag i fodurwyr a ddarperir gyda chyfrifon cyfredol Advantage cymwys
AIG UK Limited ar gyfer diogelwch rhag dwyn hunaniaeth a ddarperir gyda chyfrifon cyfredol Advantage cymwys
Homecare Insurance Limited, sy'n aelod o grŵp cwmnïau CPP ac sy'n masnachu o dan nod masnach CPP, ar gyfer dewisiadau yswiriant ffonau symudol, dyfeisiau a bagiau llaw a ddarperir gyda chyfrifon cyfredol Advantage cymwys

Card Protection Plan Limited, sy'n trefnu yswiriant gydag ACE European Group Limited ar gyfer yswiriant diogelu cardiau a ddarperir gyda Black Card ac a gynigir gyda chardiau credyd eraill
UK Insurance Limited ar gyfer yswiriant argyfyngau cartref a ddarperir gyda Black Card
Royal & Sun Alliance Insurance plc ar gyfer yswiriant diogelu pryniadau a ddarperir gyda Black Card
Domestic & General Insurance plc ar gyfer yswiriant gwarant estynedig a ddarperir gyda Black Card
UK Insurance Limited ar gyfer cymoth Green Flag i fodurwyr a ddarperir gyda Black Card
AIG Europe Ltd ar gyfer yswiriant teithio a ddarperir gyda Black Card
AXA Assistance Deutschland GmbH ar gyfer Cymorth Teithio a ddarperir gyda Black Card
Chartis Europe S.A. ar gyfer yswiriant pris gorau a ddarperir gyda YourPoints World MasterCard
Chartis Europe S.A. ar gyfer yswiriant canslo tocynnau a ddarperir gyda YourPoints World MasterCard
Chartis Europe S.A. ar gyfer yswiriant dwyn a bag llaw/waled a ddarperir gyda YourPoints World MasterCard

☐ Dim ond ein cynhyrchion ein hunain yr ydym yn eu cynnig.

Drosodd

## 3. Pa wasanaeth fyddwn ni'n ei ddarparu i chi?

☐ Byddwn yn eich cynghori ac yn gwneud argymhelliad i chi ar ôl i ni asesu'ch anghenion.

☑ Ni fyddwch yn cael cyngor nac argymhellion gennym ar gyfer unrhyw fath o gytundeb yswiriant di-fuddsoddiad. Mae'n bosibl y byddwn yn gofyn rhai cwestiynau i chi er mwyn lleihau nifer y cynhyrchion y byddwn yn darparu manylion amdanynt. Yna bydd angen i chi wneud eich dewis eich hun ynglŷn â pha un i'w gymryd.

## 4. Beth fydd yn rhaid i chi ei dalu i ni am ein gwasanaethau?

☐ Ffi.

☑ Dim ffi.

Cewch ddyfynbris fydd yn amlinellu unrhyw ffioedd eraill sy'n gysylltiedig ag unrhyw bolisi yswiriant penodol.

## 5. Pwy sy'n ein rheoleiddio?

Mae National Westminster Bank Plc, 5th Floor, 280 Bishopsgate, Llundain EC2M 4RB yn cael ei awdurdodi a'i reoleiddio gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (FSA). 121878 yw ein rhif ni ar Gofrestr yr FSA.

Mae'r busnes y caniateir i ni ymgymryd ag ef yn cynnwys trefnu a darparu cygnor ar yswiriant difuddsoddiad.

Gallwch wirio hyn ar Gofrestr yr FSA trwy fynd at wefan yr FSA **www.fsa.gov.uk** neu drwy ffonio'r FSA ar 0300 500 5000.

## 6. Perchnogaeth

Mae'r Royal Bank of Scotland Group plc, sef rhiant-ymgymeriad gwahanol gwmnïau yswiriant yn y Royal Bank of Scotland Group (gan gynnwys Direct Line Insurance plc, Direct Line Life Insurance Company Limited, National Insurance and Guarantee Corporation Limited, UK Insurance Limited, Churchill Insurance Company Limited, National Westminster Life Assurance Limited a Royal Scottish Assurance plc), hefyd â pherchnogaeth a rheolaeth lwyr ar National Westminster Bank Plc.

## 7. Beth i'w wneud os oes gennych chi gŵyn

Os ydych chi'n dymuno gwneud cwyn, cysylltwch â ni:

| | |
|---|---|
| Yn ysgrifenedig | National Westminster Bank Plc, Customer Relations Unit, 225 Shenley Road, Borehamwood WD6 1TE |
| Dros y ffôn | 0800 015 4212 |

Os na allwch ddatrys eich cwyn gyda ni, mae'n bosibl y bydd gennych hawl i'w chyfeirio at Wasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol.

## 8. A ydym ni wedi ein cynnwys yn y Cynllun Iawndal Gwasanaethau Ariannol (FSCS)?

Mae NatWest yn aelod o'r Cynllun Iawndal Gwasanaethau Ariannol (FSCS). Gall y Cynllun dalu iawndal i gwsmeriaid os ydynt yn gymwys ac os nad yw cwmni wedi'i reoleiddio'n gallu talu hawliadau yn ei erbyn, fel arfer os yw'r cwmni'n rhoi'r gorau i fasnachu neu'n mynd yn fethdalwr. Mae terfynau iawndal yn berthnasol yn dibynnu ar y math o hawliad.

Yswiriant gorfodol (e.e. yswiriant modur trydydd parti): 100% o'r hawliad, heb unrhyw derfyn uchaf.
Yswiriant anorfodol (e.e. cartref a chyffredinol): 100% o'r £2,000 cyntaf a hefyd 90% o weddill yr hawliad, heb unrhyw derfyn uchaf (yn effeithiol o 01/01/10 mae'r uchafswm yn 90% o'r hawliad, heb unrhyw derfyn uchaf). Cyngor a threfniant cyffredinol yswiriant (ar gyfer masnach a gyflawnwyd ar neu ar ôl 14 Ionawr 2005): 100% o'r £2,000 cyntaf a hefyd 90% o weddill yr hawliad heb unrhyw derfyn uchaf (yn effeithiol o 01/01/10 mae'r uchafswm yn 90% o'r hawliad, heb unrhyw derfyn uchaf).

Mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr adwerthol (gan gynnwys unigolion preifat a rhai busnesau bach) yn gymwys o dan y cynllun. Am fwy o wybodaeth am yr amodau sy'n rheoli iawndal a manylion ar sut i wneud cais, ewch at wefan yr FSCS sef **www.fscs.org.uk**